**Huw Lewis AC / AM**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**
**Minister for Education and Skills**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-566
Ein cyf/Our ref HL/01616/14

William Powell AC

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

6 Awst 2014

Annwyl William

Diolch am eich llythyr diweddar yn gofyn am fy marn ar ddeiseb a ddaeth i law gan Jane Chapman ynghylch y Cod Derbyniadau Ysgol ("y Cod").

Hoffwn ymdrin â phob un o'r pwyntiau fel a ganlyn.

**Nid yw'r Cod yn addas at y diben oherwydd:**

- **It plays lips service to the United Nations Rights of the Child as there is no requirement to consult with children in decisions that affect them.**

  Er nad yw'r Cod ei hun yn nodi bod yn rhaid ymgynghori â phlant am unrhyw agwedd benodol ar dderbyniadau ysgol, mae angen i awdurdodau derbyniadau ystyried sut byddai unrhyw benderfyniadau ganddynt yn effeithio arnynt. Un o egwyddorion allweddol y Cod yw bod yn rhaid bod gweithdrefnau derbyniadau yn deg ac yn gyfartal i bob grŵp o blant.

  Cyn cynnal yr ymgynghoriad statudol ar y Cod, rhoddodd fy swyddogion ystyriaeth ddyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Dosbarthwyd fersiwn addas o'r ddogfen ymgynghori i blant a phobl ifanc. Cafwyd 117 o ymatebion gan blant a phobl ifanc a helpodd i lywio'r Cod. Dylid cofio bod y gyfraith ar dderbyniadau yn rhoi hawl i rieni fynegi eu dymuniad, a gellir disgwyl, pan fydd rhieni'n ystyried pa ddymuniadau y maent am eu mynegi, y byddant yn ystyried barn eu plant.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Huw.Lewis@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

- **It plays lip service to the Equality Act as there is no requirement to undertake an Equality Impact Assessment.**

  Er nad yw'r Cod ei hun yn nodi bod yn rhaid gwneud Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, mae dyletswydd ar bob awdurdod derbyniadau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth gydraddoldeb wrth gyflawni eu cyfrifoldebau. Nodir hyn yn glir yn Atodiad E y Cod.

- **It is not prescriptive enough so leads to differences in implementation, some good, some bad.**

  Mae'r Cod yn cyfeirio at ofynion statudol presennol ac yn gosod gofynion gorfodol y mae'n **rhaid** i gyrff rhagnodedig gydymffurfio â nhw. Lle mae'r Cod yn gosod gofynion gorfodol, nodir bod yn **rhaid** i'r cyrff perthnasol gydymffurfio â'r gofyniad neu'r ddarpariaeth benodol. Os yw'r Cod yn gwahardd arferion, nodir **na ddylai** y corff neu'r cyrff perthnasol ddefnyddio'r arfer hwn.

  Mae'r Cod hefyd yn cynnwys canllawiau y dylai'r cyrff perthnasol eu dilyn oni bai y gallant ddangos bod cyfiawnhad dros beidio â gwneud hynny. Lle mae'r canllawiau'n cyfeirio at arfer da, mae'r Cod yn nodi y **dylai** y cyrff perthnasol ddilyn y canllawiau penodol. Ar y llaw arall, lle mae'r canllawiau'n cyfeirio at gamau gweithredu sydd fel arfer yn cael eu cyfrif yn arfer gwael, mae'r Cod yn nodi **na ddylid** defnyddio'r arfer, er y gallai fod amgylchiadau eithriadol lle mae cyfiawnhad drosto.

  Os na fydd awdurdod neu gorff yn cydymffurfio â'r darpariaethau gorfodol yn y Cod, gallai hyn arwain at wrthwynebiad statudol neu gŵyn i Weinidogion Cymru. Hefyd gallai methu dilyn canllawiau'r Cod arwain at gefnogi gwrthwynebiad neu gŵyn os na all awdurdodau derbyniadau gyfiawnhau'r ffaith eu bod wedi gwyro oddi wrth y canllawiau hynny.

  Nid yw'n bosibl i'r Cod roi canllawiau hollgynhwysfawr oherwydd y byddai'n amhosibl rhagweld pob sefyllfa. Awdurdodau derbyniadau, yng ngoleuni ystyriaeth fanwl o amgylchiadau achosion unigol, sydd yn y safle gorau i wneud dyfarniadau pan fydd angen.

- **There is very restricted rights of appeal for parents and governing bodies to Welsh Government in particular governing bodies who are considered statutory consultees and yet are restricted to very specific circumstances in which they can appeal.**

  Cynhaliodd fy swyddogion ymgynghoriad 14 wythnos ar y Cod cyn iddo gael ei gwblhau. Ni chododd yr un corff llywodraethu ysgol na rhiant y mater o hawl apelio cyfyngedig ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwn. Gall cyrff llywodraethu wrthwynebu i'r nifer o dderbyniadau a bennir ar gyfer eu hysgolion, ac nid oes gwrthwynebiad o'r fath wedi codi yn y blynyddoedd diwethaf. Nid oes yr un corff llywodraethu wedi gwneud sylw y dylai fod mwy o hawl iddynt wrthwynebu i drefniadau derbyniadau. Gall rhieni wrthwynebu mewn amgylchiadau cyfyngedig eraill, a phrin iawn yw gwrthwynebiadau o'r fath.

- **The wording within the School Admissions Code is ambiguous and is not easy to penetrate by those who are forced to use it.**

  Y bwriad yw bod ymarferwyr yn defnyddio'r Cod, er enghraifft awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu. Mae'n rhaid i'r cyrff hyn "weithredu yn unol" â'r agweddau statudol ar y Cod a chydymffurfio â'r canllawiau oni bai bod rheswm pwysig dros wyro oddi wrthynt. Mae fy swyddogion wrthi'n llunio canllaw hawdd ei ddefnyddio i rieni ynghylch derbyniadau ysgol ac apeliadau derbyniadau ysgol. Bydd hyn yn destun ymgynghoriad maes o law.

- **The School Admissions Code does not define "reasonable" with regards to consultation periods.**

  Cyfrifoldeb awdurdodau derbyniadau yw diffinio'r hyn sy'n "rhesymol" o ran cyfnodau ymgynghori. Wrth wneud hynny, dylent sicrhau bod y cyfnodau hynny yn deg ac yn synhwyrol fel bod modd iddynt amddiffyn eu safbwynt os byddant yn cael eu herio.

- **The School Admissions Code, for all of the above reasons, it not appropriate when dealing with significant changes such as changes to catchment areas.**

  Mater i awdurdodau derbyniadau yw trefn dalgylchoedd. Mae'r Cod yn darparu eu bod yn rhesymol ac yn cael eu diffinio'n glir lle cânt eu defnyddio. Os bydd yn rhaid gwneud newidiadau sylweddol, bydd yn rhaid ymgynghori arnynt, gan eu pennu a'u cyhoeddi yn yr un ffordd â threfniadau derbyniadau eraill. Mae'r Cod yn nodi hyn yn glir.

Cyhoeddwyd y Cod ym mis Gorffennaf 2013 yn dilyn cyfnod ymgynghori, ac ar ôl ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w ystyried heb unrhyw wrthwynebiad. Nid oes unrhyw fwriad i ddiwygio'r Cod ymhellach ar hyn o bryd, ond bydd y pwyntiau a godir yn y ddeiseb yn cael eu cadw i gyfeirio atynt yn y dyfodol a'u hystyried adeg yr adolygiad nesaf.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ateb pryderon y deisebydd. Hefyd hoffwn nodi'n glir, er ei bod yn bwysig bod strwythurau'n cael eu gosod mewn perthynas â derbyniadau i ysgolion, mae'n holl bwysig hefyd ein bod yn ymdrechu i hyrwyddo gwelliant mewn ysgolion fel bod plant yn cael y ddarpariaeth orau bosibl ym mha bynnag ysgol a ddewisir ar eu cyfer.

Yn gywir

**Huw Lewis AC / AM**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills